CIWB

## Tasg 2

# Lluniau diddorol

Trafodwch y cwestiynau yma gyda'ch partner chi ac ysgrifennwch nodiadau yn y bocsys pan rydych chi'n siarad.

1. a. Beth ydych chi'n gallu gweld yn y lluniau?
Disgrifiwch yn fanwl, e.e. lliw, mawr neu fach, ac ati.

b. Sut mae'r artist yn teimlo yn y llun, tybed?
Rhowch resymau dros eich ateb.

Dyma rai geiriau i'ch helpu chi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| llinell, llinellau | line, lines | cryf | strong |
| cylch, cylchoedd | circle, circles | gwan | weak |
| marc, marciau | mark, marks | lliwgar | colourful |
| lliw, lliwiau | colour, colours | amryliw | multicoloured |
| adeilad, adeiladau | building, buildings | tywyll | dark |
| to, toeon | roof, roofs | golau | light |
| ffenest, ffenestri | window, windows | llachar | bright |

Llun 1

Llun 2

Llun 3

Llun 4

3. Ydych chi'n gallu gweld pobl yn y lluniau?

Pam tybed?

4. Ydy'r dinasoedd yn edrych yn gyffrous neu'r ddiflas?

Pam tybed?

5. Beth ydych chi'n feddwl o'r lluniau yma?
Trafodwch hyn mewn grŵp.
Ydych chi'n cofio sut i fynegi barn?
Ysgrifennwch y patrymau pwysig yma cyn dechrau. Defnyddiwch y geiriau yn y bocs ar dudalen 1 hefyd.

6. Rydych chi'n gweithio i oriel gelf ac rydych chi'n mynd i werthu un o'r lluniau. Rhaid i chi roi gwybodaeth am y llun yn y catalog.

Ysgrifennwch am y llun. Rhaid i chi ddweud:
- pwy ydy'r artist
- beth mae hi'n hoffi peintio
- sut mae hi'n peintio
- beth sy yn y llun rydych chi'n gwerthu.

Rhaid i chi fynegi barn am y llun ond dylech chi fynegi barn bositif achos rydych chi eisiau gwerthu'r llun!

Hefyd, rhaid i chi roi pris.

| Geirfa | |
|---|---|
| oriel gelf | art gallery |
| gwerthu | to sell |
| mynegi barn | to express an opinion |

CIWB

Lot  34 – llun gan

7. Darllenwch y disgrifiad i'r grŵp. Ydyn nhw'n gallu dyfalu pa lun rydych chi'n gwerthu?

Beth maen nhw'n feddwl o'r pris?